# Darllen a deall

## Rhedwr o fri!

Mae dyn o'r enw Tony Hodgson wedi rhedeg deg marathon mewn deg diwrnod!

Roedd Tony wedi rhedeg yr holl ffordd i Lundain o'i gartref yn Llanelltyd, ger Dolgellau. Roedd e wedi rhedeg 262 o filltiroedd.


Ar ôl cyrraedd Llundain roedd Tony wedi rhedeg ras marathon Llundain hefyd.

Roedd e wedi rhedeg 26 milltir y marathon mewn 4 awr a 38 munud.

Roedd e wedi codi £3,500 ar gyfer elusen.

Mae Tony yn 57 oed.

Da iawn Tony!





geco

# Darllen a deall

## Trafodwch

Sawl marathon mewn deg diwrnod?

O ble roedd e'n dechrau rhedeg?

Beth wnaeth e ar ôl cyrraedd Llundain?

Pam mae e'n rhedeg?

# Darllen a deall

## Tecstio

Mae merch ifanc wedi ennill cystadleuaeth tecstio America!

Enw’r ferch ydy Morgan ac mae hi’n 13 oed.

Roedd hi’n gorfod tecstio gair hir yn fwy cyflym na neb arall er mwyn ennill.

Y gair oedd:

Supercalifragilisticexpialidocious !

Roedd hi’n gorfod tecstio’r gair heb wneud camgymeriad!

Fyddech chi’n gallu tecstio hynny?

Enillodd Morgan dros £12,000.

Dywedodd Morgan ei bod hi wedi ennill gan ei bod wedi bod yn tecstio ei ffrindiau yn aml.



# Darllen a deall

## Trafodwch

Beth mae Morgan wedi ennill?

Ble mae Morgan yn byw?

Oedd y gair roedd hi'n gorfod tecstio yn hir neu'n fyr?

A oedd hi wedi bod yn ymarfer? Sut?

# Darllen a deall

## Biniau gwm cnoi

Mae bin newydd ar gael ar gyfer cadw strydoedd yn lân.

Mae'r bin yn arbennig ar gyfer gwm cnoi.

Mae 28 miliwn o bobl ym Mhrydain yn cnoi gwm cnoi.

Maen nhw'n prynu 935 miliwn pecyn o gwm cnoi bob blwyddyn.

Mae llawer o'r gwm hwn yn cael ei daflu ar y strydoedd.

Mae'r bin newydd yn ceisio cael pobl i gofio taflu eu gwm cnoi yn y bin.

Enw'r bin ydy'r ***gummy bin*** ac mae disgyblion Ysgol Braichgarw, Amlwch yn defnyddio'r bin.

Mae'r bin yn gallu dal dros 500 darn o hen gwm cnoi.

Mae'r hen gwm cnoi yn gallu cael ei ddefnyddio wedyn er mwyn creu traciau rhedeg ar gyfer ysgolion.

# Darllen a deall

## Trafodwch

?

Beth ydy pwrpas y bin newydd?

?

Sawl pecyn o gwm cnoi sy'n cael eu gwerthu bob blwyddyn?

?

Enwch un lle ble mae'r bin.

?

Beth ydych chi'n gallu ei wneud o'r hen gwm cnoi?


# Darllen a deall

## Y ffair

Un noson hyfryd
A'r sêr yn wincio
Ces fynd i'r ffair.

Gwelais…
Oleuadau llachar,
Pobl yn gwibio o gwmpas
fel gwybed,
Stondinau o bob math
A meri-go-rownd lliwgar.

Blasais…
Y siocled
A'r afalau taffi,
Cŵn poeth
A chandi fflós.



Nicholas Insall
(detholiad o'r gerdd)

# Darllen a deall

## Y ffair

1

Beth mae’r sêr yn ei wneud ar noson y ffair?

2

Mae’r bardd yn **gweld** pedwar peth yn y ffair.
Beth ydyn nhw?

2

Mae’r bardd yn **blasu** pedwar peth yn y ffair.
Beth ydyn nhw?



geco

# Darllen a deall

## Y ffair

4

Wyt ti wedi bod yn y ffair o'r blaen?
Beth wyt ti wedi …

| | |
|---|---|
| **gweld** | |
| **blasu** | |
| **clywed** | |
| **teimlo** | |
| **cyffwrdd** | |



geco

# Darllen a deall

5

Ysgrifennwch gerdd ar y ffair. Gallwch ddilyn y patrwm hwn.

Un noson ______
Ces fynd i'r ffair.

Gwelais...

____________________
____________________
____________________

Clywais...

____________________
____________________
____________________

Blasais...

____________________
____________________
____________________

Cyffwrdd â...

____________________
____________________

Teimlais...

____________________
____________________

Un noson __________
Dod adre o'r ffair.



geco

# Darllen a deall

## Nadolig

Arogl pwdin ‘Dolig,
Arogl tatws rhost,
Arogl dŵr poeth yn berwi.
Sŵn Rhodri yn gweiddi, “Ia ho”
Sŵn papur yn crensian,
Sŵn cracyrs yn mygu,
Sŵn yr eira’n disgyn,
Sŵn Gethin yn disgyn
i
l
a
w
r
y grisiau mewn hapusrwydd!
Sŵn y pîn yn syrthio o’r goeden Nadolig,
Sŵn twrci yn cael ei dorri’n ddarnau.
Sŵn golau’n ffiwsio.

Yng nghanol y sŵn, meddwl am hen dramp
mewn eira yn begera am “Focs Nadolig”.

Yng nghanol y meddwl, anghofio.
‘Dolig ydy hi.
Diwrnod gorau’r flwyddyn!

Fflur Enlli Scott



# Darllen a deall

## Nadolig

1

Mae'r bardd yn **arogli** llawer o bethau ar ddiwrnod Nadolig. Beth?

2

Mae'r bardd yn **clywed** llawer iawn o bethau ar ddiwrnod Nadolig. Beth?

3

Mae'r bardd yn **meddwl** am rywbeth ar ddiwrnod Nadolig. Beth?

# Darllen a deall

## Nadolig

4

Beth ydych chi'n ei **weld** yn eich tŷ chi ar ddiwrnod Nadolig?

5

Beth ydych chi'n ei **glywed** yn eich tŷ chi ar ddiwrnod Nadolig?

6

Beth ydych chi'n ei **arogli** yn eich tŷ chi ar ddiwrnod Nadolig?

# Darllen a deall

## Nadolig

Dwi'n gweld

Peth arall dwi'n ei weld ydy

Dwi'n clywed

Mae sŵn ... hefyd

Mae arogl ... yn y tŷ

# Darllen a deall

## Sbwriel

Mae 'na sbwriel ar y bysiau
Mae 'na sbwriel ar y stryd
Ai chi sy'n gollwng sbwriel
O hyd ac o hyd?

Hen bapurau siocled
O flaen drysau'r tai
Peidiwch, peidiwch, peidiwch dweud
'Nid arna i mae'r bai'.

Pwy biau'r tuniau?
Pwy biau'r papur tships?
Pwy ar iard yr ysgol
Sy'n taflu bagiau crisps?

Mae 'na sbwriel ar y bysiau
Mae 'na sbwriel ar y stryd
Ai chi sy'n gollwng sbwriel
O hyd ac o hyd?

Zac Davies



# Darllen a deall

## Sbwriel

1

| Ble mae'r sbwriel? | Beth ydy'r sbwriel? |
| --- | --- |
| | |

2

Beth am greu hysbyseb sy'n dweud wrth bawb i beidio taflu sbwriel.

Beth am ddefnyddio geiriau fel:

**Paid** **Gofala** **Beth am** **Mae eisiau**

# Darllen a deall

## Rhys

Bachgen o Gasnewydd ydy Rhys. Ar ôl gadael ysgol, cymerodd Rhys flwyddyn allan a mynd i deithio.


Aeth ar awyren i Sri Lanka, yna i Singapore. Roedd e'n hoffi Singapore. "Mae'n wlad lân iawn ac mae'r bwyd yn wych," meddai Rhys.

Yna aeth Rhys i Cambodia. Roedd llawer o adeiladau gwych yn Phnom Penn, prifddinas Cambodia, ond roedd y traffig yn ofnadwy. Meddai Rhys, "Mae miloedd o fotobeics ac maen nhw'n teithio'n gyflym iawn."

Teithiodd Rhys i Thailand ar y trên – roedd e'n cysgu ar y llawr. Yna aeth i Laos, ond roedd Rhys yn teimlo'n sâl yn Laos. O'r diwedd dyma fe'n cyrraedd Malaysia. Ond doedd gan Rhys ddim arian ar ôl ac roedd y banciau ar gau!

Gwnaeth Rhys lawer o bethau diddorol – rafftio dŵr gwyn, nofio, teithio ar gwch bach iawn gyda 30 o bobl a 100 o ieir. Gwelodd sawl neidr, mwnci a siarc.

(o Ffeil-o-fflic Indigo, Cyfres Fflic)



# Darllen a deall

## Rhys



Llenwch y ffeithffeil hwn am Rhys

| | |
|---|---|
| **Yn byw yn …** | |
| **Singapore yn ...** | |
| **Phnom Penn …** | |
| **Barn ar draffig Cambodia ...** | |
| **Mynd i Thailand ar y ...** | |
| **Yn Laos …** | |
| **Malaysia …** | |
| **Gwneud beth?** | |
| **Gweld beth?** | |



geco

# Darllen a deall

## Dydd Sadwrn Cai

Dydd Sadwrn! Hwre! Wedyn, dwi'n cofio - dwi wedi addo helpu a'r stondin yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnal ffair heddiw i godi arian i helpu plant yn Gaza.

Mae sawl stondin yn y ffair. Mae Manon yn edrych ar ôl y stondin gacennau. Mae Jason yn edrych ar ôl y stondin ffrwythau a llysiau. Dwi'n edrych ar ôl y stondin bric-a-brac. Bric-a-brac! Pethau rhad! Pethau dydy pobl ddim eu hangen! Mr Jones, yr athro Mathemateg sy'n gyfrifol am y ffair. Dydy Mr Jones byth yn gweiddi yn y dosbarth. Mae'n athro da ac yn garedig.

Dwi'n penderfynu mynd i siopa cyn mynd i'r ffair. Mae Manon Steffan Ros mewn siop lyfrau yn y dref. Mae'n arwyddo ei llyfr diweddaraf i bobl ifanc. Dwi'n mwynhau ei llyfrau. Dwi eisiau prynu ei llyfr newydd. Dwi hefyd am ofyn iddi arwyddo'r llyfr newydd.

Dwi'n penderfynu bwyta brecwast cyn mynd i'r dref. Brecwast go iawn! Tomatos, cig moch, wy a madarch ... a sôs coch wrth gwrs! Lawr a fi wedyn i'r Siop Lyfrau. Mae'r siop yn llawn. Mae Manon Steffan Ros yn arwyddo'r llyfrau. Dwi'n ymuno â'r ciw.



# Darllen a deall

Dyma gyrraedd pen y ciw. Dwi'n prynu'r llyfr. Mae'r awdur yn arwyddo'r llyfr. Mae hi'n gwenu'n braf arnaf a dweud "Gobeithio y byddi di yn mwynhau'r llyfr Cai."

Dwi'n hapus! Hapus iawn!

Dwi'n hwyr i'r ffair! Bydd rhaid i mi ruthro i'r ysgol. Dwi'n cyrraedd yr ysgol gyda gwynt yn fy nwrn. Mae'n brysur – pawb yn gosod eu stondinau. Dwi'n mynd ati yn syth i baratoi'r stondin bric-a-brac.

Mae'r ffair ar agor! Mae'r bobl yn llifo i mewn. Mae rhai yn rhuthro am y stondin bric-a-brac i chwilio am fargen. Mae Mr Jones yn dod draw i helpu gyda'r gwerthu. Erbyn diwedd y ffair mae popeth wedi mynd! Dwi wedi casglu £256.24! Dwi'n hapus. Hapus iawn!

Dwi'n barod i fynd adref yn hapus OND dwi'n methu ffeindio llyfr Manon Steffan Ros! Dwi'n chwilio yn bob man. Does dim sôn am Llyfr Glas Nebo!

Dyma holi Mr Jones i weld os ydy o wedi gweld Llyfr Glas Nebo. Mae'n edrych arnaf mewn braw. "Mae'n wir ddrwg gen i Cai. Roeddwn i'n meddwl fod y llyfr ar werth. Dwi wedi gwerthu'r llyfr gyda'r bric-a-brac! Sori!"

Dydw'i ddim yn hapus. Dydw'i ddim yn hapus o gwbl!



geco

# Darllen a deall

## Dydd Sadwrn Cai

1

| Pa stondin mae Cai yn gofalu amdani yn y ffair? | | |
|---|---|---|
| stondin lyfrau | stondin cacennau | stondin bric-a-brac |

2

| Beth mai Cai yn ei gael i frecwast? | | |
|---|---|---|
| tomatos, cig moch a madarch | tomatos, madarch ac wy | tomatos, madarch, cig moch, wy |

3

| Beth mae Cai yn hoffi ei gael gyda ei frecwast? | | |
|---|---|---|
| sôs coch | sôs brown | mwstard |

4

| Cyn mynd i'r ffair mae Cai yn mynd i brynu ... | | |
|---|---|---|
| potel o ddŵr | llyfr | creision |

# Darllen a deall

# Dydd Sadwrn Cai

5

| Mae'r stondin bric-a-brac wedi casglu ... | | |
|---|---|---|
| £249.36 | £256.26 | £254.24 |

6

| Beth sy'n digwydd i'r llyfr? | | |
|---|---|---|
| mae'n mynd ar goll | mae'n cael ei ddwyn | mae'n cael ei werthu |

Beth wyt ti'n feddwl fydd yn digwydd nesaf yn y stori?

# Darllen a deall

## Paentio

Bore Sadwrn. Hanner awr wedi deg.

Roedd Gareth a Dylan wedi dod i weld Mrs Smith yn 4, Ffordd y Clogwyn. Roedden nhw'n mynd i baentio'r sièd. Cnociodd Gareth ar y drws. Daeth bachgen bach i'r drws.

"Helo," meddai Dylan. "Rydyn ni wedi dod i weld Mrs Smith. Rydyn ni wedi dod i baentio'r sièd."

"Harri ydw i," meddai'r bachgen, "mae Mam wedi mynd i'r siop. Ond dwi'n gwybod ble mae'r paent."

Aeth Harri â Gareth a Dylan i'r sièd. Ar y silffoedd roedd llawer o duniau o baent.

"Hwn ydy'r paent ar gyfer y sièd," meddai Harri. Cododd dun o baent gwyrdd golau. "A hwn ydy'r paent ar gyfer y drws." Cododd dun o baent pinc.

"Wyt ti'n siŵr?" meddai Dylan.

"Ydw, dwi'n siŵr," atebodd Harri.



# Darllen a deall

## Paentio

Agorodd Dylan a Gareth y tuniau a dechrau paentio. Dylan oedd yn paentio’r drws. Roedd y paent pinc yn edrych yn dda ar y drws. Dechreuodd Gareth baentio cefn y sièd gyda’r paent gwyrdd. Yn fuan roedd Dylan wedi gorffen paentio’r drws.

Yn sydyn daeth rhywun i’r ardd. Mrs Smith oedd yno. Roedd hi’n edrych yn gas iawn. “Beth yn y byd ydych chi’n wneud?” gwaeddodd. “Paent ar gyfer y lolfa ydy’r paent pinc a’r paent gwyrdd! Mae’n baent drud iawn! Paent brown sy ar gyfer y sièd.

Trodd Dylan yn sydyn; roedd y paent pinc yn ei law. Syrthiodd Dylan, a syrthiodd y tun ar y glaswellt. Aeth y paent pinc dros y glaswellt; roedd popeth yn binc! Sgrechiodd Mrs Smith.

Clywodd Gareth y sŵn a rhuthrodd draw, ond roedd y paent pinc ar y glaswellt yn llithrig. Syrthiodd Gareth; syrthiodd y tun paent o’i law. Cymysgodd y paent gwyrdd golau â’r paent pinc ar y glaswellt…

Roedd rhywun y tu ôl i Mrs Smith. Harri oedd yno. Roedd e’n chwerthin…

# Darllen a deall

## Paentio

### Gareth a Dylan

Pam maen nhw wedi mynd i dy Mrs Smith?

Beth sydd yn digwydd ar ôl cyrraedd?

Beth mae Gareth a Dylan yn ei wneud?

### Mrs Smith

Beth mae hi’n ei ddweud wrth y bechgyn?

Sut ydych chi’n meddwl mae hi’n teimlo?

# Darllen a deall

## Paentio

Beth ydych chi'n meddwl sydd yn digwydd nesaf yn y stori?

Beth mae Mrs Smith yn ei ddweud wrth Gareth a Dylan?

Beth mae Mrs Smith yn ei ddweud wrth Harri?

Beth mae Gareth a Dylan yn ei wneud?

Beth mae Harri yn ei wneud?

Sut mae Mrs Smith yn teimlo ar y diwedd?

# Darllen a deall

## Y brenin newydd

Roedd brenin Prydain wedi marw ac roedd rhaid dewis brenin newydd. Roedd carreg fawr yn Llundain. Yn y garreg roedd cleddyf. Galwodd Myrddin yr uchelwyr at ei gilydd.

“Edrychwch,” meddai, “dyma garreg fawr. Rhaid tynnu’r cleddyf allan o’r garreg. Os bydd rhywun yn tynnu’r cleddyf allan, hwnnw fydd y brenin.”

Aeth yr uchelwyr at y garreg. Roedd pob un yn meddwl, “Mae hyn yn hawdd.”

Ond doedd neb yn gallu tynnu’r cleddyf. Roedden nhw’n tynnu a thynnu, ond doedden nhw ddim yn gallu tynnu’r cleddyf allan o’r garreg.

Dywedodd Myrddin, “Rhaid i bawb arall dynnu’r cleddyf.”

Daeth cannoedd o ddynion i geisio tynnu’r cleddyf. Ond lwyddodd neb. Pwy oedd yn mynd i fod yn frenin?

Yna daeth bachgen ifanc o’r enw Arthur. Gafaelodd yn y cleddyf; tynnodd y cleddyf allan o’r garreg. Roedd pawb yn edrych yn syn.

# Darllen a deall

## Y brenin newydd

“Dydy hyn ddim yn iawn,” meddai’r uchelwyr. “Rydyn ni wedi bod yn tynnu a thynnu. Mae’n rhaid bod y cleddyf wedi dod yn rhydd.”

“Arthur,” meddai Myrddin, “rho’r cleddyf yn ôl yn y garreg.”

Rhoddodd Arthur y cleddyf yn ôl yn y garreg. Unwaith eto, ceisiodd yr uchelwyr dynnu’r cleddyf allan o’r garreg. Ond doedd neb yn gallu tynnu’r cleddyf.

“Arthur,” meddai Myrddin unwaith eto, “tynna’r cleddyf allan o’r garreg.”

Tynnodd Arthur y cleddyf; a dyma’r cleddyf allan o’r garreg yn hawdd.

“Dyma’r brenin newydd,” meddai Myrddin wrth bawb. “Gwrandewch arno.”

Roedd Arthur yn frenin da a dewr. Mae llawer o chwedlau amdano.

Roedd ganddo wraig hardd o’r enw Gwenhwyfar.

# Darllen a deall

## Y brenin newydd

Roedd ganddo farchogion dewr. Marchogion y Ford Gron oedden nhw. Enillon nhw lawer o frwydrau. Roedd rhai o'r marchogion yn ddynion clyfar iawn!

Enw un o'r marchogion oedd Cai. Roedd Cai yn gallu aros aros yn effro am naw diwrnod! Roedd Cai hefyd yn gallu dal ei anadl am naw diwrnod hefyd!

Enw un arall oedd Gwrhyr. Roedd Gwrhyr yn gallu siarad pob iaith yn y byd, a siarad ag anifeiliaid ac adar hefyd.

Yna ymladdodd Arthur frwydr ofnadwy, brwydr Camlan. Cafodd Arthur ei anafu. Dywedodd wrth rai o'i farchogion, "Cariwch fi at y llyn."

Daeth cwch dros y llyn. Yn y cwch roedd tair brenhines. Aeth y brenin ar y gwch. Roedd e wedi ei anafu'n ddrwg iawn.

"Dwi'n mynd i ynys hud, Ynys Afallon," meddai Arthur. "Fydda i ddim yn marw, a bydda i'n dod yn ôl i helpu Cymru rhyw ddydd."

# Darllen a deall

## Y brenin newydd

Dywed beth sy'n digwydd yn y stori.
Ti'n gallu defnyddio pwyntiau bwled i ddangos y wybodaeth.

| Beth mae Myrddin yn gofyn i bawb ei wneud? | Beth mae Arthur yn ei wneud? | Beth ddigwyddodd yn un o frwydrau Arthur? |
| --- | --- | --- |
| | | |



geco

# Darllen a deall

## Y brenin newydd

Roedd gan Arthur nifer o filwyr dewr - marchogion y Ford Gron.
Beth wyt ti wedi'i ddysgu am y marchogion?

| Enw'r marchog | Ffeithiau | |
|---|---|---|
| **Cai** | **Ffaith 1** | **Ffaith 2** |
| **Gwrhyr** | **Ffaith 1** | **Ffaith 2** |



geco

# Darllen a deall

## Rygbi

Dechreuodd rygbi gael ei chwarae mewn tref o'r enw Rugby yn Lloegr yn 1823.

Roedd dyn o'r enw William Webb Ellis wedi penderfynu codi'r bêl mewn gêm bêl-droed yn lle cicio'r bêl.

Dechreuodd dau ddyn yn nhref Rugby wneud peli rygbi i'r ysgol leol. Roedden nhw'n defnyddio tu fewn mochyn i wneud y bêl.

Y mwyaf o bwyntiau mae tîm Cymru wedi ei sgorio mewn gêm erioed ydy 102 o bwyntiau. Roedden nhw'n chwarae yn erbyn Portiwgal yn 1994.

Dim ond 11 pwynt sgoriodd Portiwgal!

# Darllen a deall

## Rygbi

| | |
|---|---|
| **Ble?** | |
| **Pryd?** | |
| **Sut?** | |
| **Y bêl** | |
| **Ffaith ddiddorol** | |


# Darllen a deall

## Y Gêmau Olympaidd

Roedd y Gêmau Olympaidd cyntaf eu cynnal yn Olympia yn Groeg. Cawson nhw eu cynnal gyntaf yn y flwyddyn 776 cyn geni Crist. Y gystadleuaeth gyntaf erioed oedd y ras 200 llath. Yna, mewn ychydig flynyddoedd daeth cystadleuaeth y pentathlon, sef rhedeg, reslo, neidio, taflu disgen a thaflu gwaywffon. Mae’r ddwy gystadleuaeth hon yn dal i gael eu cynnal yn y Gêmau Olympaidd heddiw.

Mae’r Gêmau Olympaidd yn cael eu cynnal bob pedair blynedd. Doedd dim Gêmau Olympaidd yn 1916 oherwydd y Rhyfel Byd Cyntaf, nac yn 1940 a 1944 oherwydd yr Ail Ryfel Byd.

Erbyn heddiw, mae Gêmau Olympaidd yr Haf i’w cael a Gêmau Olympaidd y Gaeaf. Dydy’r ddau ddigwyddiad byth yn cael eu cynnal yn yr un flwyddyn. Rhai o gystadlaethau Gêmau Olympaidd yr Haf ydy pêl-fasged, canŵio, beicio, hoci, jiwdo, tennis, pêl-droed, nofio a chystadlaethau ar y trac. Rhai o gystadlaethau Gêmau Olympaidd y Gaeaf ydy sglefrio, sgïo a hoci iâ.





geco

# Darllen a deall

## Y Gêmau Olympaidd

Llenwch y grid.

Pa gystadlaethau sydd yn cael eu cynnal yn ystod yr haf yn y Gemau Olympaidd?

Pa gystadlaethau sydd yn cael eu cynnal yn ystod y gaeaf yn y Gemau Olpympaidd?

| | | | |
|---|---|---|---|
| beicio | canŵio | hoci | hoci iâ |
| jiwdo | nofio | pêl-droed | pêl-fasged |
| sgïo | sglefrio | tennis | trac |

| Gêmau Olympaidd yr Haf | Gêmau Olympaidd y Gaeaf |
|---|---|
| | |

# Darllen a deall

## Y Gêmau Olympaidd

Pa rai o'r gêmau hyn fyddet ti'n hoffi cymryd rhan ynddyn nhw.
Rhowch 1 am 'yn fawr iawn'.
Rhowch 5 am 'dim o gwbl!'

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| **beicio** | | | | | |
| **canŵio** | | | | | |
| **hoci** | | | | | |
| **hoci iâ** | | | | | |
| **jiwdo** | | | | | |
| **nofio** | | | | | |
| **pêl-droed** | | | | | |
| **pêl-fasged** | | | | | |
| **sgïo** | | | | | |
| **sglefrio** | | | | | |
| **tennis** | | | | | |
| **trac** | | | | | |



geco

# Darllen a deall

## Ysgol ralïo



**Beth am fynd i ysgol wahanol?**

Ysgol ble rwyt ti'n dysgu sut i ralïo?

Dewch i ysgol ralïo ***Silverstone***, ger y trac rasio enwog. Rydyn ni'n cynnal gwersi ralïo yma ers 1982.

Mae trac ardderchog gyda ni. Mae darnau syth, sawl tro a sawl cornel siarp yno.

Peidiwch â phoeni os ydy hi'n bwrw glaw! Mae'r trac yn llawer mwy o hwyl os ydy hi'n llithrig!

Mae 10 car gwahanol gyda ni er mwyn i i ti ddewis ohonyn nhw. Paid â phoeni os wyt ti'n malu'r car. Mae ganddo ni yswiriant!

Cyn dod, **rhaid** i ti:

- Ffonio i archebu lle
- Llenwi'r ffurflen gofrestru
- Cofio dod â trwydded yrru gyda ti

**Rhaid** i ti wisgo:

- Dillad cynnes, tynn
- Treinyrs



geco

# Darllen a deall

## Ysgol ralïo

1. Ble mae'r ysgol ralïo?

2. Ers pryd mae gwersi ralïo yno?

3. Mae'r darn yn disgrifio'r trac rasio. Tynnwch lun ohono fan hyn.

4. Sawl car sydd gyda nhw?

5. Beth fydd yn digwydd os ydych chi'n malu'r car?

# Darllen a deall

## Ysgol ralïo

### Ffurflen gofrestru

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| Oed: | |
| Cyfeiriad: | |
| Oes trwydded yrru gyda chi? | |
| Ydych chi'n gyrru car bob dydd? | |
| Pa fath o gar? | |
| Oes dillad cynnes gyda chi? | |
| Oes treinyrs gyda chi? | |
| Beth ydych chi'n edrych ymlaen at gael ei wneud yn yr ysgol ralïo? | |

# Darllen a deall

## Neidio bynji



Gannoedd o flynyddoedd yn ôl roedd dynion ifanc Ynys Vanuata, yn Ynysoedd Môr y De, yn gwneud camp ryfedd iawn. Bydden nhw'n dringo i ben y coed bambŵ ac yn clymu rhes o frigau ysgafn wrth eu ffêr (ankle). Yna pan fydden nhw'n neidio fe fyddai'r brigau ysgafn yn eu stopio rhag brifo gormod wrth iddyn nhw gyrraedd y llawr. Dyma'r math cyntaf o neidio bynji.

Ar y cyntaf o Ebrill 1979, digwyddodd y naid bynji cyntaf yng ngwledydd Prydain, oddi ar bont Clifton yn Bryste (Bristol). Roedd pedwar dyn wedi neidio 250 troedfedd oddi ar bont gyda chordyn 'lastig cryf wrth eu ffêr. Doedd dim llawer o groeso iddyn nhw ar ôl iddyn nhw lanio. Roedd yr heddlu wedi eu harestio am wneud rhywbeth a oedd yn rhy beryglus.

Roedd dyn o'r enw AJ Hackett wedi gwneud neidio bynji yn boblogaidd iawn yn Seland Newydd yn y 1980au. Neidiodd oddi ar bontydd ar draws y wlad, gan hyd yn oed neidio oddi ar dŵr Eiffel ym Mharis! Erbyn hyn roedd neidio bynji yn fwy diogel gyda phobl yn gofalu na fyddai damwain. Er hyn, mae damweiniau yn dal i ddigwydd ac mae nifer yn cael eu lladd. Y prif reswm am hyn ydy bod y rhaff yn rhy hir.

Heddiw, mae nifer o bobl yn gwneud naid bynji er mwyn codi arian at elusen. Fyddet ti'n hoffi mynd amdani?



geco

# Darllen a deall

## Neidio bynji

Ti'n cael cyfle i wneud naid bynji!

Sut wyt ti'n teimlo am hynny?

| | | |
|---|---|---|
| yn gyffrous | yn ofnus | yn hapus |
| yn edrych 'mlaen | yn nerfus | yn hyderus |

Beth am ysgrifennu paragraff byr sy'n disgrifio sut fyddet ti'n teimlo **cyn** y naid bynji

Beth am ysgrifennu paragraff byr sy'n disgrifio sut fyddet ti'n teimlo **ar ôl** y naid bynji



geco

# Darllen a deall

## Neidio bynji

| | Stadiwm y Principality | Stadiwm Wembley |
|---|---|---|
| **Agor?** | Mehefin 1999, er mwyn cynnal Cwpan Rygbi'r Byd. | Mawrth 2007, pedair blynedd yn hwyr. |
| **Beth sydd yno?** | Stadiwm ar gyfer chwaraeon a chyngherddau. | Stadiwm ar gyfer chwaraeon a chyngherddau. |
| **Faint o bobl?** | 74,500 | 90,000 |
| **Pa mor fawr?** | Saith llawr a 760 o dai bach! | 23 llawr a 2,618 o dai bach! |
| **Ffaith 1** | 56,000 tunnell o goncrid a dur yn y stadiwm. | Costio £798 miliwn i'w adeiladu. |
| **Ffaith 2** | Y to'n medru agor a chau. Mae'r to'n pwyso 9,000 tunnell. | Y to'n pwyso 7,000 tunnell. |
| **Ffaith 3** | Mae UEFA wedi rhoi 5 seren i'r stadiwm. | Y to wedi syrthio cyn gorffen adeiladu'r stadiwm! |

# Darllen a deall

## Neidio bynji

Beth sydd **yn debyg** rhwng Stadiwm y Principality a Stadiwm Wembley?

| Stadiwm y Mileniwm | Stadiwm Wembley |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

Beth sydd **yn wahanol** rhwng Stadiwm y Mileniwm a Stadiwm Wembley?

| Stadiwm y Mileniwm | Stadiwm Wembley |
|---|---|
| | |
| | |
| | |



geco